

Publications approval reference: 001559

# Rhan gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn adsefydlu yn ystod ac ar ôl COVID-19

15 Mai 2020 Fersiwn 1

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu blaenoriaethau strategol cyfunol ein pedair gwlad a'n hymagwedd at arweinyddiaeth adsefydlu gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn ystod ac ar ôl COVID-19. Mae adsefydlu yn hanfodol i sicrhau bod ein poblogaeth yn adfer o effeithiau'r pandemig ac i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y system iechyd a gofal cymdeithasol. Fel gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, rydym chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu'r agenda adsefydlu a hynny wrth weithio fel rhan o'r timau amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol ar draws yr holl sectorau.

Mae'r dull cyfunol hwn yn angenrheidiol gan ein bod yn rhagweld y bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau adsefydlu ar draws pedwar prif grŵp poblogaeth:

1. unigolion sy'n gwella o COVID-19, gan gynnwys yr unigolion a arhosodd yn y gymuned a'r unigolion sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty/uned gofal critigol ar ôl treulio cyfnod estynedig yno
2. pobl y mae eu hiechyd a'u gweithrediad bellach mewn perygl oherwydd seibiau mewn gofal wedi'i gynllunio
3. pobl a wnaeth osgoi defnyddio gwasanaethau iechyd yn ystod y pandemig sydd bellach mewn mwy o berygl o afiechyd oherwydd oedi wrth wneud diagnosis a rhoi triniaeth iddynt
4. pobl sy'n delio ag effeithiau'r cyfyngiadau symud ar eu hiechyd meddwl a chorfforol.

Mae anghenion adsefydlu'r grwpiau hyn sydd mewn perygl yn hanfodol bwysig ac mae angen eu bodloni wrth inni fynd ati ar y cyd i gefnogi unigolion i wella, adfer eu hiechyd a'u lles a chyrraedd eu potensial. Yn y pen draw, bydd hyn yn sicrhau ein bod yn ffynnu fel cenedl.

## **Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i unigolion a phoblogaethau**

Byddwn yn parhau i fabwysiadu dull poblogaeth gyfan a systemau cyfan o fynd i'r afael ag adsefydlu. Er ein bod yn blaenoriaethu ymyriadau ar gyfer yr unigolion sydd fwyaf mewn perygl ar hyn o bryd, byddwn yn sicrhau nad yw anghenion pobl eraill yn cael eu hanwybyddu. Byddwn yn ymgysylltu â'r cohort ehangaf posibl, drwy ffyrdd newydd o weithio, er mwyn cyrraedd mwy o bobl a lleihau dirywiad y gellir ei osgoi yn eu hiechyd. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid system i nodi grwpiau sydd mewn perygl o niwed y gellir ei osgoi.

## **Byddwn yn cynnig gofal wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn**

Byddwn yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, gan wneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn gweithio mewn partneriaeth gyda'r unigolion hynny ac eraill. Byddwn hefyd yn croesawu cyfleoedd i gefnogi hunanreoli. Byddwn yn mabwysiadu dulliau holistig o adsefydlu, gan gydnabod effaith gorfforol, seicolegol a chymdeithasol y pandemig.

## **Byddwn yn croesawu ffyrdd newydd o weithio**

Mae'r pandemig wedi golygu ein bod wedi gorfod mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio yn gyflym, ee ein defnydd o dechnoleg a'n dull o ddefnyddio cymysgedd o sgiliau. Pan fo'r arferion newydd hyn yn cynnig budd i brofiad cleifion ac yn gwella boddhad staff, canlyniadau clinigol, cynhyrchiant ac effaith amgylcheddol, byddwn yn eu cadw ac yn eu datblygu ymhellach fel buddion etifeddol. Byddwn yn ymrwmo i ddefnyddio adnoddau sydd wedi cael eu rhyddhau i fuddsoddi mwy o egni ac ymdrech mewn lleihau anghydraddoldebau iechyd.

## **Byddwn yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael**

Byddwn yn helpu myfyrwyr, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd sy'n dychwelyd i'r GIG, cydweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol a'r sectorau gwirfoddol/annibynnol, teulu a ffrindiau mewn modd rhagweithiol a chreadigol i wneud yn fawr o wasanaethau adsefydlu. Byddwn yn cefnogi ymarferwyr i weithio ar lefel uchaf eu trwydded. Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion presgripsiynu cymdeithasol, gan gydnabod y bydd iechyd a lles corfforol, seicolegol a chymdeithasol yn cael eu cefnogi drwy ddefnyddio dull holistaidd. Byddwn hefyd yn defnyddio asedau cymunedol mewn modd diogel yn ystod y pandemig.

## **Byddwn yn gofalu amdanom ein hunain a'n cydweithwyr**

Mae'r pandemig wedi effeithio ar fywydau proffesiynol a phersonol pawb, yn gorfforol ac yn emosiynol. Byddwn yn blaenoriaethu hunanofal ac yn datblygu cadernid tîm drwy sicrhau ein bod yn gweithio mewn amgylchedd sy'n ddiogel yn gorfforol ac yn seicolegol a sicrhau

mynediad at adnoddau lles corfforol a meddyliol. Byddwn yn helpu gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig ag iechyd sydd wedi ymgymryd â rolau newydd yn ystod y pandemig i ddychwelyd i wasanaethau proffesiynol perthynol i iechyd yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn datblygu'r proffesiynau ymhellach drwy adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth newydd y gweithwyr. Bydd cyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi, boed yn darparu gwasanaethau adsefydlu ar y rheng flaen neu'n cyflawni gweithgareddau hanfodol eraill sy'n caniatáu hynny.

## Yn olaf, diolch


Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a'u staff cymorth yn gwneud cyfraniad mawr at yr ymateb i COVID-19. Byddant yn chwarae rhan ganolog wrth i'r pandemig symud ymlaen i'r cam nesaf. Rydym yn hynod o falch o ymateb y gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Mae cyfnod heriol o'n blaenau wrth inni gefnogi anghenion adsefydlu'r unigolion sydd wedi cael COVID-19 yn ogystal ag eraill mewn grwpiau sydd mewn perygl. Rydym yn gwybod y bydd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn parhau i ddangos ymroddiad, bod yn broffesiynol a gweithio'n galed a hoffem ddiolch o galon i chi am eich holl ymdrechion. Rydym yn gwybod y bydd y profiad hwn yn ein gwneud yn gryfach gyda'n gilydd, nawr ac yn y dyfodol.



Ruth Crowder  
Prif Gyngorydd Proffesiynau Perthynol i  
Iechyd / Chief Allied Health Professions  
Advisor  
Llywodraeth Cymru Welsh Government



Jennifer Keane  
Prif Gyngorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd  
Yr Adran Iechyd, Gogledd Iwerddon



Carolyn McDonald  
Prif Gyngorydd Proffesiynau Perthynol i  
Iechyd (Yr Alban)  
Llywodraeth yr Alban



Suzanne Rastrick OBE  
Prif Gyngorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd  
(Lloegr)  
GIG Lloegr a Gwella'r GIG, Addysg Iechyd Lloegr  
a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol